Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

WALES AUDIT OFFICE

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad ar ansawdd gwasanaethau addysg awdurdodau lleol i blant a phobl ifanc

**yng**

**Nghyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**
**Swyddfeydd Dinesig**
**Stryd yr Angel**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF31 4WB**

**Hydref 2012**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i allu i wella.

Yn yr arfarniadau hyn, rydym yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

**Rhagorol**
**Da**
**Digonol**
**Anfoddhaol**

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/02/2013**

## Cyd-destun

Mae Pen-y-bont ar Ogwr yn Ne Cymru ac mae'n ffinio â thri awdurdod lleol arall, sef: Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg. Cyfanswm y boblogaeth yw 134,564.

Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, dywed 9.7% o bobl dros dair oed eu bod yn medru'r Gymraeg o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 19%.

Y gyfradd cyflogaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw 71.7% o gymharu â chyfartaledd Cymru, sef 66.7%. Mae 17.6% o blant yn byw mewn cartrefi di-waith. O'r boblogaeth waith ym Mhen-y-bont ar Ogwr, nid oes gan 11.3% unrhyw gymwysterau, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 12.1%.

Canran y disgyblion o oedran ysgol gorfodol sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) yw 20.4%, sy'n uwch na 19.3% yn genedlaethol. Mae'r lefel hon o gymhwyster yn y 14eg safle yng Nghymru, o'r 22 o awdurdodau lleol (CYBLD 2012[1]). Mae un ar ddeg o'r 85 o ardaloedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr bellach ymhlith y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru (MALlC[2] 2011).

Ar 31 Mawrth 2011, roedd 325 o blant ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cael gofal gan yr awdurdod. Roedd 165 o blant ar y gofrestr Amddiffyn Plant. Mae lleiafrifoedd ethnig yn cyfrif am 2.3% o'r boblogaeth, sy'n is na chyfartaledd Cymru, sef 3.6%.

Asesiad Gwariant Safonol (AGS) Llywodraeth Cymru ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn 2012-2013 yw £1,641 y pen, sydd ychydig islaw cyfartaledd Cymru. Gosodwyd cyllideb refeniw net o £235.5 miliwn (heb gynnwys grantiau penodol), sydd 1.1% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol ac uwchlaw'r AGS.

Gosododd yr awdurdod gyllideb addysg net o £104.3 miliwn ar gyfer 2012-2013, sef cynnydd o 2% o gymharu â 2011-2012, ac mae'n gyfwerth â £4,499 y disgybl, sef yr isaf ond un yng Nghymru. Mae cyllid dirprwyedig ysgolion cynradd gyfwerth â £3,808 y disgybl (gan gynnwys grantiau penodol), sef yr isaf yng Nghymru. Yn y sector uwchradd, y gyllideb ddirprwyedig yw £4,313 y disgybl, o gymharu â chyfartaledd o £4,704 y disgybl ledled Cymru. Rhwng 2011-2012 a 2012-2013, bu cynnydd o 5% yng nghyllid dirprwyedig ysgolion, yn unol â disgwyliadau Llywodraeth Cymru. Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru fod 80.4% o'r cyllid sydd ar gael i ysgolion wedi'i ddirprwyo, sydd ychydig islaw cyfartaledd Cymru, sef 81%.

Mae'r awdurdod wedi gwario £47.7 miliwn o gyllid cyfalaf ar brosiectau addysg rhwng 2004-2005 a 2010-2011. O ystyried maint yr awdurdod, cynyddodd y gwariant hwn o ffigur islaw'r cyfartaledd i ffigur sy'n debyg i'r cyfartaledd ledled Cymru yn ystod y cyfnod hwn. Fodd bynnag, bu cynnydd sylweddol mewn gwariant cyfalaf i £16.4 miliwn yn 2011-2012 a 2012-2013, y mae'r gwariant cyfalaf disgwyliedig ar ei gyfer

[1] CYBLD yw'r byrfodd ar gyfer Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion a gynhelir ar gyfer yr holl ysgolion a gynhelir yn flynyddol gan Lywodraeth Cymru.

[2] Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) yw'r ffordd swyddogol o fesur amddifadedd mewn ardaloedd bach yng Nghymru. Mae'n fesur cymharol o grynodiadau o amddifadedd ar y lefel ardaloedd bach.

yn £26.2 miliwn. Mae'r awdurdod hefyd wedi sicrhau ymrwymiad rhaglen Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgolion yn yr Unfed Ganrif ar Hugain i gefnogi gwariant pellach o bron i £45 miliwn dros gyfnod o chwe blynedd o 2014.

## Crynodeb

### Barn gyffredinol: Digonol

Bernir bod perfformiad presennol yn ddigonol oherwydd:

- bod perfformiad ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr islaw'r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 o ystyried y cyd-destun prydau ysgol am ddim;
- bod cynnydd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd gryn dipyn islaw'r cyfartaledd fel y dangosir gan ddata gwerth ychwanegol;
- bod presenoldeb mewn gormod o ysgolion cynradd ac uwchradd islaw'r cyfartaledd o gymharu â phresenoldeb mewn ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim; a
- bod canran y bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant (NACH) yn llawer yn uwch na chyfartaledd Cymru dros nifer o flynyddoedd , a bod cyfran y disgyblion Blwyddyn 13 nad yw eu cyrchfan yn hysbys dros dair gwaith y cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Fodd bynnag:

- bu gwelliant sylweddol mewn perfformiad ar dri o'r pum dangosydd yng nghyfnod allweddol 4 yn 2012, er bod mwyafrif y rhain yn parhau i fod islaw cyfartaledd Cymru;
- mae cyfraddau'r gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol wedi gostwng i fod islaw cyfartaledd Cymru, a'r nifer gyfartalog o ddyddiau a gollir fesul gwaharddiad yw'r isaf yng Nghymru erbyn hyn;
- mae'r gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn darparu gwybodaeth, hyfforddiant, arweiniad a chymorth o ansawdd da i ysgolion trwy weithio mewn partneriaeth agos gydag ystod eang o asiantaethau; ac
- mae dysgwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cymryd rhan yn dda mewn ystod eang o gyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol, yn yr ysgol ac yn y gymuned fel ei gilydd, ac mae'r nifer sy'n dilyn cynlluniau penodol uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

### Rhagolygon gwella: Digonol

Bernir bod rhagolygon gwella'r awdurdod lleol yn ddigonol oherwydd:

- nid yw arfarniadau'r awdurdod o'i wasanaethau a'i adnoddau yn ddigon cyson na thrylwyr, ac nid yw'n gwybod pa mor effeithiol y mae ei gynlluniau a'i weithredoedd yn helpu dysgwyr i gyflawni o ganlyniad; ac

- nid yw adroddiadau swyddogion i aelodau etholedig bob amser wedi cynnwys digon o wybodaeth ffeithiol a sylwadau arfarnol i helpu aelodau i ddeall ac asesu effaith gwaith yr awdurdod ar ddysgwyr, na'u helpu i nodi gwelliannau yn ddigon da.

Fodd bynnag:

- mae'r awdurdod yn gwneud cynnydd da o ran datblygu gwasanaethau integredig a darpariaeth ar y cyd gyda phartneriaid allweddol, fel ymwelwyr iechyd, cynhwysiant a chymorth ymddygiad, tai a'r trydydd sector;
- mae rheolaeth ariannol yn gadarn ac fe gaiff asedau eu rheoli'n dda; ac
- mae gan yr awdurdod hanes da o gyflwyno prosiectau moderneiddio ysgolion yn llwyddiannus.

## Argymhellion

A1 Gwella deilliannau ar gyfer disgyblion, yn enwedig yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 drwy ddefnyddio data ar ddisgyblion unigol i bennu targedau gwelliant mwy uchelgeisiol a chryfhau cysondeb yr her a ddarperir gan yr awdurdod ar ysgolion i wella

A2 Gwella presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd drwy parhau i ddatblygu y cyd-weithio ymhlith swyddogion lles addysg ac 'ymgysylltu â theuluoedd'

A3 Cryfhau hunanarfarnu er mwyn deall yr hyn sy'n gweithio'n dda a'r hyn y mae angen ei wella er mwyn helpu dysgwyr i gyflawni eu nodau

A4 Gwella ansawdd y wybodaeth a roddir i aelodau etholedig er mwyn iddynt allu herio perfformiad gwasanaethau ac ysgolion yr awdurdod yn fwy cadarn

A5 Lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH)

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn o fewn 50 diwrnod gwaith o dderbyn yr adroddiad.

Mae Estyn o'r farn fod yr awdurdod yn disgyn i'r categori gweithgarwch dilynol a bydd angen ymweliad monitro gan Estyn arno.  Bydd Estyn yn pennu dyddiad a ffocws yr ymweliad monitro hwn maes o law.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Digonol |
|---|---|

**Safonau: Digonol**

Yn 2012, roedd canran y disgyblion sy’n cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen uwchlaw’r cyfartaledd ar gyfer Cymru. Bu gwelliant yn y ganran sy’n cyflawni’r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2, ond parhaodd yn sefydlog yng nghyfnod allweddol 3. Yn y ddau gyfnod allweddol hyn, mae perfformiad islaw’r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Bu gwelliant mewn perfformiad ar dri o’r pum dangosydd yng nghyfnod allweddol 4 yn 4 yn 2012, er bod mwyafrif y rhain yn parhau islaw cyfartaledd Cymru. Yn 2012, bu gwelliant yng nghanran y dysgwyr sy’n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig ac mae’n well na chyfartaledd Cymru erbyn hyn.

O gymharu â lefelau perfformiad ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim yn 2012, roedd perfformiad ychydig uwchlaw’r cyfartaledd yn y Cyfnod Sylfaen ac islaw’r cyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 2 a 3. Yng nghyfnod allweddol 4, roedd perfformiad yn dda ar y ddau ddangosydd sy’n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg. Fodd bynnag, ar y tri dangosydd arall, roedd gormod o ysgolion islaw’r cyfartaledd, a dim digon yn y 25% uchaf o ysgolion tebyg. Yn 2010 a 2011, llwyddodd Pen-y-bont ar Ogwr i fodloni un yn unig o dri meincnod Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad ar sail cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim yn y naill flwyddyn a’r llall. Roedd wedi bodloni pob un o’r meincnodau hyn yn y gorffennol. Nid yw’r dadansoddiad ar gyfer 2012 ar gael eto.

Mae cynnydd rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd fel y dangosir gan ddata gwerth ychwanegol gryn dipyn islaw’r cyfartaledd.

Yn 2012, roedd y bwlch ym mherfformiad bechgyn a merched yn llai na’r cyfartaledd ledled Cymru ym mhob un o’r cyfnodau allweddol, ac eithrio cyfnod allweddol 4. Roedd y bwlch mewn perfformiad rhwng dysgwyr sy’n cael prydau ysgol am ddim gryn dipyn yn llai na chyfartaledd Cymru yng nghyfnod allweddol 4. Mae disgyblion o grwpiau ethnig lleiafrifol a’r rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn cyflawni yn unol â’r disgyblion hyn ledled Cymru ar y cyfan. Mae perfformiad plant sy’n cael gofal yn well nag yng Nghymru ar y cyfan. Mae perfformiad disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol uwchlaw cyfartaledd Cymru mewn ysgolion cynradd ond islaw’r cyfartaledd erbyn diwedd cyfnod allweddol 4.

Yn 2012, roedd perfformiad mewn Cymraeg mamiaith uwchlaw’r cyfartaledd mewn ysgolion cynradd ac islaw’r cyfartaledd yng nghyfnod allweddol 3. Roedd perfformiad mewn Cymraeg ail iaith yn well nag yng nghyfnod allweddol 3 nag yr oedd mewn cyfnodau allweddol eraill.

Dengys profion darllen fod 24% o ddisgyblion yn gadael yr ysgol gynradd gydag oedrannau darllen islaw llythrennedd swyddogaethol. Mae hyn yn agos at y ffigur ledled Cymru. Mae disgyblion sy’n cael cymorth ychwanegol ar gyfer llythrennedd a

rhifedd yn gwneud cynnydd priodol yn y tymor byr.  Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn olrhain cynnydd disgyblion yn ddigon da i wybod p'un a ydynt yn cynnal y cynnydd hwn dros gyfnod hwy.

Mae dysgwyr yn ennill amrywiaeth dda o gymwysterau o ganlyniad i gyfleoedd a ddarperir mewn lleoliadau nad ydynt yn ffurfiol a lleoliadau anffurfiol.

**Lles:  Digonol**

Mae presenoldeb mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn agos at y cyfartaledd ar gyfer Cymru.  O gymharu â lefelau mewn ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim, mae presenoldeb islaw'r cyfartaledd yn sector cynradd ac uwchradd.

Mae cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol a pharhaol wedi gostwng i fod islaw cyfartaledd Cymru.  Y nifer gyfartalog o ddiwrnodau a gollir yn sgil pob gwaharddiad yw'r isaf yng Nghymru.  Caiff cyfran gynyddol o bobl ifanc y mae angen addysg arnynt mewn uned cyfeirio disgyblion ei hailintegreiddio'n llwyddiannus mewn ysgol prif ffrwd ar ôl un tymor yn unig o gymorth dwys.  Mae nifer y plant a'r bobl ifanc sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol wedi gostwng yn sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae canran y disgyblion sy'n gadael addysg amser llawn ar ddiwedd Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NACH) wedi bod ymhell uwchlaw cyfartaledd Cymru am sawl blwyddyn, er iddi ostwng i ganran debyg i'r cyfartaledd yn 2011.  Roedd cyfran y bobl ifanc nad oedd eu cyrchfan yn hysbys yn 2011 bron ddwywaith yn fwy na'r gyfran yn 2010, a chyfran y disgyblion Blwyddyn 13 nad yw eu cyfran yn hysbys dros deirgwaith yn fwy na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru.

Mae pobl ifanc sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r gwasanaeth ieuenctid yn ennill gwybodaeth a medrau ac yn gwella agweddau.  Mae eu hagweddau a lefel eu cyfranogiad mewn gwirfoddoli a gwaith elusennol yn yr ysgol ac yn y gymuned yn cynyddu trwy'r 'Dyfarniad Dinasyddiaeth' a ddatblygwyd yn lleol.

Mae dysgwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn cymryd rhan yn dda mewn ystod eang o gyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol yn yr ysgol ac yn y gymuned, ac mae'r nifer sy'n dilyn cynlluniau penodol uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol.

Mae disgyblion a phobl ifanc yn cymryd rhan yn dda wrth wneud penderfyniadau am eu bywyd mewn ysgolion a chymunedau lleol.  Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cyfrannu'n effeithiol at drafodaethau am faterion strategol o fewn y sir.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2:  Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Digonol** |

**Cymorth ar gyfer Gwella Ysgolion:  Digonol**

Mae'r awdurdod yn cefnogi ei ysgolion yn dda ar y cyfan.  Mae ei her i ysgolion wella deilliannau disgyblion yn datblygu.  Mae swyddogion wedi dechrau casglu data ar ddisgyblion unigol o'r holl ysgolion uwchradd a rhai ysgolion cynradd.  Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i'w helpu i gytuno ar dargedau mwy cadarn.  Fodd bynnag, mae'r trefniadau hyn yn gymharol newydd ac ni chânt eu defnyddio'n ddigon cyson i helpu i wella cyrhaeddiad yr holl ddisgyblion ar draws yr awdurdod.

Mae ymgynghorwyr cyswllt yn rhoi cymorth da wrth helpu ysgolion i ddehongli ystod o ddata perfformiad. Er bod mwyafrif o ymgynghorwyr cyswllt yn llunio arfarniadau defnyddiol ar safonau, darpariaeth ac arweinyddiaeth, mae ansawdd adroddiadau ymgynghorwyr cyswllt yn rhy anghyson ar y cyfan, a lleiafrif ohonynt yn rhy ddisgrifiadol. Yn benodol, nid ydynt yn darparu arfarniad o ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth yn yr ysgol yn gyson.

Mae'r system sy'n sicrhau ansawdd gwaith ymgynghorwyr cyswllt er mwyn sicrhau eu bod yn drylwyr a chyson ac wrth iddynt herio ysgolion yn gwella.

Mae gan yr awdurdod gronfa ddata ddefnyddiol sy'n cynnwys ystod eang o wybodaeth, sydd wedi'i bwriadu i roi trosolwg o berfformiad ysgolion. Fodd bynnag, mae'n anodd pori drwy'r gronfa ddata, ac mae hyn yn effeithio ar allu swyddogion i fonitro cynnydd yr holl ysgolion yn ddigon cynnar i nodi tanberfformio ac ymyrryd yn effeithiol, yn enwedig gydag ysgolion 'cymedrol'.

Mae Estyn wedi nodi bod angen gweithgarwch dilynol ar o gwmpas chwarter o ysgolion, a bod angen gwella un ysgol gynradd yn sylweddol.

Mae gan y rhan fwyaf o ysgolion ddealltwriaeth dda o'u lle yng nghategorïau ymyrraeth newydd yr awdurdod a lefel yr her a'r cymorth y byddant yn ei chael. Fodd bynnag, mae eu dealltwriaeth o'u hawliau o fewn y Cytundeb Partneriaeth gyda'r awdurdod lleol yn llai cadarn.

Mae swyddogion yr awdurdod lleol yn cefnogi ysgolion yn dda i gyflwyno'r Cyfnod Sylfaen trwy'r deunyddiau arweiniad o ansawdd da iawn a ddarperir.

Mae ystod dda o fentrau yn canolbwyntio'n briodol ar wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r awdurdod yn dadansoddi nac yn rhannu data o'r rhaglenni hyn yn ddigon cyson i'w galluogi i wybod pa raglenni sydd fwyaf llwyddiannus i helpu disgyblion i gyflawni'r lefelau disgwyliedig ar ddiwedd pob cyfnod allweddol.

Mae'r awdurdod lleol yn darparu cyfleoedd hyfforddi da ar gyfer darpar arweinwyr ysgol ac yn rhoi cymorth effeithiol i'r rhai sydd newydd ddechrau ar eu swydd fel penaethiaid. Mae swyddogion yn darparu cyfleoedd da ar gyfer hyfforddi a datblygu llywodraethwyr.

**Cymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol: Da**

Mae'r gwasanaeth ADY yn darparu gwybodaeth, hyfforddiant, arweiniad a chymorth o ansawdd da, sydd weithiau'n dda iawn, ar gyfer ysgolion. Gwneir hyn trwy weithio mewn partneriaeth agos gydag ystod eang o asiantaethau.

Yn hanesyddol, mae niferoedd y datganiadau ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig wedi bod yn isel ym Mhen-y-bont ar Ogwr, ac mae'r awdurdod yn gwneud cynnydd da o ran lleihau'r rhain hyd yn oed ymhellach. Cyflawnir hyn trwy roi ystod dda o gymorth priodol ac arbenigol i ddisgyblion mewn ysgolion prif ffrwd neu mewn darpariaeth arbenigol. Mae'r cymorth arbenigol hwn yn sicrhau bod bron pob disgybl yn cael manteisio ar wasanaethau o ansawdd da yn gynnar a'u bod yn

cael cymorth i gefnogi eu hanghenion canfyddadwy. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif bach iawn o ddisgyblion ag anhwylder y sbectrwm awtistig (ASA) bob amser yn cael cymorth yn ddigon cynnar i gefnogi eu hanghenion unigol.

Mae trefniadau rheoli llinell ar gyfer y gwasanaeth seicoleg addysg a'r ymgynghorwyr cyswllt yn wahanol, sy'n golygu nad yw'r cydweithio bob amser yn ddigon effeithiol. Mae'r awdurdod yn ymwybodol o hyn ac yn cynnal adolygiad i sicrhau bod rolau a chyfrifoldebau yn glir ac i wella effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir. Mae system dda a gwell ar waith i amlinellu darpariaeth gwasanaethau, deilliannau disgyblion a chostau gwasanaethau. Mae'r trefniadau Cynllunio ac Adolygu mewn Partneriaeth (CAMP) yn effeithiol o ran galluogi'r awdurdod lleol i nodi unrhyw danberfformio gan ysgolion mewn meysydd allweddol o ddarpariaeth ADY. Caiff y wybodaeth hon ei rhannu'n effeithiol rhwng ysgolion yn yr un clwstwr i lywio'r defnydd gorau o ddarpariaeth. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi'r awdurdod i integreiddio'r rhan fwyaf o ddisgyblion i leoliadau prif ffrwd sydd â darpariaeth arbenigol yn llwyddiannus.

Mae'r awdurdod yn darparu gwybodaeth o ansawdd da ar gyfer rhieni. Mae sesiynau galw i mewn yn cynnig cyfleoedd da i rieni wneud defnydd uniongyrchol o wasanaethau i drafod materion. Mae perthnasoedd da ar waith gyda gwasanaethau cyfryngdod ac eirioli. Mae gan y gwasanaethau hyn rôl allweddol o ran helpu rhieni i ddeall y rhesymau y tu ôl i benderfyniadau sy'n effeithio ar eu plant.

**Hyrwyddo Cynhwysiant Cymdeithasol a Lles: Digonol**

Mae gan yr awdurdod ddarpariaeth briodol i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn gallu cymryd rhan yn dda ac elwa ar eu hymgysylltiad mewn cyfleoedd addysg a hyfforddiant.

Mae gan yr awdurdod strategaeth gynhwysfawr ar gyfer cymorth ymddygiad a dulliau amlasiantaethol arloesol ar gyfer presenoldeb, gwaharddiadau ac ymddygiad. Caiff y rhain effaith gadarnhaol ar gyfraddau gwaharddiadau dysgwyr, ond ni chânt effaith gystal ar bresenoldeb.

Mae cydweithio ymhlith swyddogion lles addysg ac ymgysylltu â theuluoedd ar wella presenoldeb yn dangos rhywfaint o dystiolaeth o gynnydd, ond mae'n rhy ddiweddar i arfarnu effaith lawn y cydweithio hwn yn llawn. Fodd bynnag, mae gwelliannau cyffredinol mewn presenoldeb yn parhau i fod yn rhy amrywiol ac yn rhy araf.

Mae grŵp tasg gwrth-fwlio yn mynd i'r afael ag arfer anghyson ar draws yr awdurdod yn dda. Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn arwain y gwaith hwn i safoni arfer. Nid yw'r awdurdod yn cofnodi achosion hiliol yn ddigon effeithiol.

Mae gan yr awdurdod lleol ystod dda o wasanaethau a rhaglenni cymorth ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae rheolwyr yn gwneud defnydd da o ddata i wella'r broses o dargedu'r gwasanaethau hyn yn effeithiol. Mae mentrau amlasiantaethol da a thargedig yn cynnig cymorth effeithiol lle mae angen.

Mae'r gwasanaeth cwnsela yn darparu cymorth da ar draws ysgolion a lleoliadau ffurfiol eraill a lleoliadau nad ydynt yn ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys rhaglen beilot

gydag ysgolion cynradd. Mae gwaith ataliol a chyfiawnder adferol gan y gwasanaeth troseddu ieuenctid wedi lleihau mynediad am y tro cyntaf i'r system cyfiawnder yn sylweddol. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth yn cael digon o effaith ar graidd o aildroseddwyr sy'n parhau. Nid yw gwaith i wella gallu dysgwyr i adael addysg orfodol a gwneud defnydd llwyddiannus o gyfleoedd cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant yn ddigon effeithiol ac nid yw'n ddigon da o ran olrhain p'un a yw pobl ifanc mewn cyflogaeth, addysg neu hyfforddiant.

Mae gan yr awdurdod lleol bolisi a gweithdrefnau cliriach erbyn hyn ar ddiogelu. Mae systemau gwell yn sicrhau bod gan y gwasanaeth addysg a phartneriaid systemau priodol ar gyfer gwirio a monitro gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Caiff rhaglen strwythuredig o hyfforddiant diogelu ar gyfer staff ei monitro'n dda i sicrhau bod hyfforddiant staff yn gyfoes.

**Mynediad a lleoedd ysgol: Da**

Er 2008, mae Rhaglen yr awdurdod ar gyfer Moderneiddio Ysgolion wedi lleihau nifer yr ysgolion ac wedi sicrhau arbedion gwerth £1.2 miliwn. Yn y sector cynradd, mae gan yr awdurdod gyfran is o leoedd dros ben na chyfartaledd Cymru. Fodd bynnag, yn y sector uwchradd, mae canran y lleoedd dros ben wedi bod uwchlaw cyfartaledd Cymru ar gyfer pob un o'r tair blynedd hyd 2011. Dengys data dros dro y bydd hyn yn parhau i fod yn wir yn 2012 a bod ychydig dros un o bob pump o leoedd yn y sector uwchradd heb eu llenwi ar hyn o bryd. Nid oes unrhyw ysgolion uwchradd yn orlawn.

Bydd yr awdurdod yn lleihau nifer y lleoedd dros ben ymhellach erbyn Medi 2014 fel rhan barhaus o ailstrwythuro ysgolion uwchradd yn sylweddol. Mae wedi cynnal dadansoddiad priodol o effaith datblygiad tai arfaethedig ar boblogaeth pob un o'i ysgolion. Mae'r rhagolygon yn cynnwys effaith wirioneddol datblygiadau tai mawr diweddar ar ysgolion lleol, ac yn dangos y bydd nifer y lleoedd dros ben yn y sector uwchradd yn gostwng ymhellach dros y deng mlynedd nesaf.

Mae agor ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg newydd yn cynyddu mynediad yn dda at addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion yn yr awdurdod.

Mae trefniadau'r awdurdod ar gyfer asesu gallu, addasrwydd a digonolrwydd adeiladau ei ysgolion yn dda. Mae gweithio integredig ar draws yr awdurdod, a gyda phartneriaid a rhanddeiliaid, ar ddatblygu prosiectau moderneiddio ysgolion yn dda ac mae rheolaeth gyffredinol ar y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn effeithiol iawn.

Mae trefniadau derbyn yn effeithiol a dim ond ychydig iawn o ddewisiadau rhieni na chânt eu bodloni. Mae gweithdrefnau da ar gyfer derbyn plant sy'n cael gofal ac mae protocol i reoli symudiadau yn y sector uwchradd yn effeithiol wrth fynd i'r afael ag anghenion plant sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn barhaol.

Mae ystod briodol o ddarpariaeth y blynyddoedd cynnar, sy'n bodloni anghenion plant a'u teuluoedd. Mae'r awdurdod yn monitro digonolrwydd ac ansawdd y ddarpariaeth hon yn effeithiol.

Caiff defnydd dysgwyr o wasanaethau cymorth ieuenctid ei gynllunio'n briodol. Mae proffil gwasanaethau ac archwiliad angen a gwblhawyd yn ddiweddar yn rhoi trosolwg da o ystod y gwasanaethau cymorth ieuenctid yn yr awdurdod. Fodd bynnag, ni chaiff y gwaith hwn ei ddadansoddi digon i fod yn gwbl hyderus fod anghenion cymorth yr holl ddysgwyr yn cael eu bodloni'n briodol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Mae gan yr awdurdod hanes hir o flaenoriaethu addysg ar gyfer plant a phobl ifanc, ac mae gan arweinwyr corfforaethol ddealltwriaeth dda o faterion addysg. Mae'r arweinydd a'r prif weithredwr newydd yn dangos gwerthfawrogiad cadarn o'r angen am dargedau uchelgeisiol a heriol i ysgogi gwelliant yn well. Mae'r arweinydd, yr aelod cabinet dros Blant a Phobl Ifanc a'r cyfarwyddwr corfforaethol yn cydweithio'n agos i arwain gwasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc.

Mae prosesau ymgynghorol da ac amrywiol yn cefnogi datblygiad strategaethau a chynlluniau ar gyfer dysgwyr ar draws y fwrdeistref sirol yn dda. Mae cynllunio strategol yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda, gyda golwg gyson a chlir ar y flaenoriaeth a roddir i wasanaethau ar gyfer dysgwyr drwyddi draw.

Mae gan yr awdurdod weledigaeth glir i ddarparu gwasanaethau wedi'u hintegreiddio'n well a mwy hygyrch sy'n bodloni anghenion dysgwyr ac yn gwella deilliannau. Mae arweinwyr a rheolwyr yn dangos ymroddiad ac ymgysylltiad rhagweithiol o ran y newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu cynllunio a'u cyflwyno yn fewnol a gyda phartneriaid. Mae'r awdurdod yn gwneud cynnydd da wrth ddatblygu gwasanaethau integredig a darpariaeth ar y cyd gyda phartneriaid allweddol.

Fodd bynnag, nid yw effaith y gwasanaethau ar gyflawniadau a chyraeddiadau dysgwyr yn ddigon clir. Nid yw'r awdurdod yn gwybod yn ddigon da sut mae cynlluniau a chamau gweithredu yn helpu dysgwyr i gyflawni eu nodau, am nad yw'r dadansoddiadau a'r arfarniadau o wasanaethau ac adnoddau yn ddigon cyson nac yn ddigon trylwyr.

Nid yw adroddiadau i aelodau etholedig bob amser wedi cynnwys digon o wybodaeth ffeithiol a sylwadau arfarnol i helpu aelodau i ddeall beth sy'n gweithio'n dda neu i'w helpu i nodi camau ar gyfer gwella yn ddigon da. Er enghraifft, ni adroddir wrth aelodau yn rheolaidd am ddata perfformiad yn ymwneud ag ysgolion unigol. O ganlyniad, ni all aelodau bob amser graffu ar ba mor effeithiol y mae'r awdurdod yn herio perfformiad ysgolion unigol.

Mae'r pwyllgor trosolwg a chraffu ar gyfer plant a phobl ifanc wedi sefydlu panel gorchwyl a gorffen i adolygu perfformiad ysgolion uwchradd. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu p'un a fydd hwn yn fforwm effeithiol i ddwyn swyddogion awdurdodau lleol ac arweinwyr ysgol i gyfrif.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae proses asesu perfformiad corfforaethol yr awdurdod yn gweithio'n dda ar y lefel uchaf i fonitro perfformiad y Gyfarwyddiaeth Plant.

Mae'r awdurdod yn ymgynghori'n dda ag ystod dda o randdeiliaid sy'n cyfrannu at y broses hunanarfarnu. Fodd bynnag, mae ansawdd y cyfraniadau yn amrywio'n sylweddol, ac er bod ymgynghori â phobl ifanc, mae eu rhan yn yr hunanarfarniad yn rhy gyfyngedig. Megis dechrau y mae'r hunanarfarnu yn y trydydd sector. Mae'r awdurdod yn defnyddio ffynonellau ac adolygiadau allanol yn dda i gefnogi gwrthrychedd ei asesu.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn gynhwysfawr ac yn cofnodi'r materion yn ddigonol. Fodd bynnag, mae hunanarfarnu a'r adroddiad dilynol yn canolbwyntio gormod ar ddeilliannau ac arfarniadau o brosiectau a mentrau ar wahân. Nid oes digon o ddadansoddi effaith ansoddol y ddarpariaeth gyffredinol ar ddysgwyr ar lefel uwch. Nid yw'r awdurdod yn nodi achosion sylfaenol perfformiad gwael yn ddigon da bob amser. Mewn rhai meysydd, ni chaiff meini prawf perfformiad eu hymgorffori mewn prosiectau a gwasanaethau o'r dechrau, sy'n golygu ei bod yn anos cynnal arfarniad dilynol o arfer ddatblygol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn nodi meysydd i'w gwella yn gywir, ac mae'n cynnwys y rhain yn briodol mewn cynlluniau yn y dyfodol. Mae'r Gyfarwyddiaeth Plant hefyd yn gwneud cynnydd da wrth ddefnyddio cynllunio yn seiliedig ar ddeilliannau.

Mae system well o werthuso perfformiad unigol sy'n cysylltu'n dda â blaenoriaethau'r Gyfarwyddiaeth.

Rhoddwyd adroddiadau rheolaidd i'r cabinet ar faterion addysgol, ond nid ydynt bob amser wedi cynnwys digon o fanylion priodol am berfformiad.

Mae'r awdurdod yn ymateb yn dda i'r argymhellion o adroddiadau arolygu blaenorol. Mae'n defnyddio cynllunio gweithredu i fodloni bron pob un o'r rhain yn llawn. Mae hyn wedi arwain at welliannau yn ymarferol, gyda gwasanaethau ADY yn benodol bellach yn gwneud cynnydd da.

Mae'r awdurdod yn rhoi anogaeth dda i ddatblygu cymunedau dysgu proffesiynol (CDPau) trwy weithio mewn clystyrau. Fodd bynnag, nid oes digon o rannu arfer orau yn rheolaidd ar bob lefel ac mae'n ddyddiau cynnar o ran arfarnu effaith gweithgarwch CDPau.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gweithio mewn partneriaeth ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn dda, gyda gwaith effeithiol rhwng y bwrdd gwasanaethau lleol (BGLl), y Bwrdd Cyflwyno a Bwrdd Partneriaeth y Bobl.

Mae Bwrdd Partneriaeth y Bobl a ffurfiwyd yn ddiweddar yn monitro rhan partneriaid mewn amcanion partneriaeth strategol a'u cynnydd tuag atynt yn rheolaidd. Fodd bynnag, ni chaiff effaith y gwasanaethau ei harfarnu'n ddigon cyson bob amser, ac ni

chaiff meini prawf arfarnu eu hymgorffori yn y broses gynllunio yn ddigon da bob amser.

Mae gan yr awdurdod drosolwg da o ystod a hygyrchedd y gwasanaethau cymorth i bobl ifanc. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn arwain hyn gyda threfniadau partneriaeth effeithiol sy'n ysgogi gwelliant gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mae wedi rhannu ei system gwybodaeth reoli gyda phartneriaid yn dda, gan gynnwys y trydydd sector, er mwyn gwella dadansoddi a monitro data. Fodd bynnag, nid yw ei weithdrefnau ar gyfer olrhain pobl ifanc sy'n gadael yr ysgol heb gymwysterau a dim hyfforddiant na chyflogaeth wedi eu datblygu'n ddigonol. Mae'n rhy gynnar i weld effaith hyn.

Mae enghreifftiau da o fapio darpariaeth ar draws partneriaid. Mae cydweithio da rhwng partneriaid wedi cynyddu ystod y ddarpariaeth ar gyfer llwybrau dilyniant unigol dysgwyr, ac mae mesurau sefydledig ar waith i sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o ystod y dewisiadau sydd ar gael.

Mae partneriaethau sy'n cyflwyno gwaith blaenoriaeth fel Tîm o Amgylch y Disgybl, y Rhiant a'r Ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar y cymorth a gaiff dysgwyr. Mae systemau gwybodaeth reoli yn helpu gweithwyr ymyrraeth i ddwyn gwybodaeth ynghyd yn effeithiol ynghylch pa gymorth y mae plant yn ei gael.

Mae gan yr awdurdod fodel ar gyfer comisiynu gwasanaethau y mae angen iddo eu cael gan eraill. Mae hyn yn mynd rhagddo'n dda, ond nid oes dyddiad targed o ran pryd y bydd yn barod i gael ei ddefnyddio o fewn y cynllun sengl. Nid yw'r model adnoddau y tu ôl i gynlluniau partneriaeth yr awdurdod wedi cael ei ddiffinio'n llawn, ac o ganlyniad, mae rhai partneriaid, gan gynnwys y trydydd sector, yn ansicr ynghylch pa wasanaethau y byddant yn gallu eu darparu.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r awdurdod yn darparu adnoddau priodol i helpu cyflawni ei flaenoriaethau ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae rheolaeth ariannol yn yr awdurdod yn gadarn ac yn cael ei rheoli gan gynllunio ariannol tymor canolig priodol. Mae gan yr awdurdod hanes da o nodi a chyflawni arbedion ac effeithlonrwydd. Mae gwaith wedi cael ei wneud i ddadansoddi'r defnydd o adnoddau ar gyfer gweithio mewn partneriaeth, ond mae hyn yn anghyflawn.

Caiff asedau eu rheoli'n dda ac mae gan yr awdurdod hanes da o gyflwyno prosiectau moderneiddio ysgolion yn llwyddiannus. Yn sgil ad-drefnu a chau 10 o ysgolion er 2008, sicrhawyd arbedion refeniw a derbyniadau cyfalaf, sydd wedi cyfrannu at y gyllideb addysg ac wedi helpu i ariannu moderneiddio pellach. Mae rhaglen gyfalaf sylweddol yn cael ei chyflwyno ar hyn o bryd, ac mae cynllun a ariennir yn llawn o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi cael ei rhoi ar waith i'w chyflwyno rhwng 2014 a 2020.

Mae cynllun y gweithlu yn nodi camau priodol ar gyfer blaenoriaethau corfforaethol ac ar gyfer datblygiadau penodol, gan gynnwys y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion a rhoi'r strategaeth cynhwysiant ar waith. Mae pleidlais ar y cynnig i arfarnu swyddi wrthi'n cael ei chynnal ar hyn o bryd. Mae cyfradd yr absenoldebau yn sgil salwch wedi gostwng ond mae'n parhau i fod uwchlaw lefelau'r awdurdodau gorau.

Er 2008, mae'r awdurdod wedi darparu cyllid addysg uwchlaw'r lefel a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru.  Mae lefelau sylweddol o refeniw allanol a chyllid cyfalaf hefyd wedi cael eu codi o ffynonellau amrywiol.  Er gwaethaf hyn, mae cyllid addysg net fesul disgybl ymhlith yr isaf yng Nghymru.  Mae'r awdurdod yn rhoi gwybodaeth ddangosol gyllidebol fesul tair blynedd i ysgolion, sy'n cynorthwyo eu cynllunio.  Mae dirprwyo cyllidebau i ysgolion wedi cynyddu i'r lefel a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru.

Caiff balansau ysgolion eu monitro gan swyddogion, ac maent uwchlaw'r cyfartaledd ar gyfer Cymru ar y cyfan.  Rhoddir cymorth i helpu ysgolion i reoli eu cyllid yn effeithiol.

Mae'r awdurdod wedi gweithredu'n dda i leihau costau prosiectau ac mae wedi adolygu'r cyllid ar gyfer agweddau penodol ar wasanaethau fel ADY.  Fodd bynnag, mae arfarnu gwerth am arian y gwasanaethau a gomisiynir ac a ddarperir yn anghyson.

Mae gwerth cyffredinol am arian ar gyfer dysgwyr yn ddigonol.

## Atodiad 1

### Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Jane Taylor | Arolygydd Cofnodol |
| Stephen Lamb | Arolygydd Tîm |
| Alun Connick | Arolygydd Tîm |
| Iwan Roberts | Arolygydd Tîm |
| Rachael Bubalo | Arolygydd Tîm |
| Liz Miles | Arolygydd Tîm |
| Mark Campion | Arolygydd Tîm |
| John Maitland Evans | Arolygydd Tîm |
| Steve Martin | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Karen I Evans | Arolygydd Cymheiriaid |
| Arwyn Thomas | Arolygydd Cymheiriaid |
| Richard Landy | Enwebai |

### Copïau o’r adroddiad

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

# Rhestr termau

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, yn bedair ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 6 neu 7.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol. Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Arholiadau allanol yng nghyfnod allweddol 4 neu ôl-16**

**Dangosydd pwnc craidd** – fel uchod.

**Cymhwyster Lefel 1** – cyfwerth â TGAU gradd D i G.

**Y trothwy Lefel 1** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.

**Cymhwyster Lefel 2** – cyfwerth â TGAU gradd A* i C.

**Y trothwy Lefel 2** - rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.

**Y trothwy Lefel 2 gan gynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill cymwysterau lefel 2 mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ac mewn mathemateg fel rhan o'u trothwy.

**Cymhwyster Lefel 3** – cyfwerth â Safon Uwch gradd A* i C.

**Y trothwy Lefel 3** – rhaid i ddysgwyr fod wedi ennill nifer o gymwysterau sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach** yn cynnwys yr holl gymwysterau allanol a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol - er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed. I gyfrifo hyn, caiff cyfanswm nifer y pwyntiau a enillir gan yr holl ddysgwyr yn y garfan ei rannu gan nifer y dysgwyr.

Mae'r **sgôr pwyntiau cyfartalog wedi'i gapio** yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau yn unig ar gyfer pob disgybl o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.